



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 740 (Cy.100)

2012 No. 740 (W.100)

TIROEDD COMIN, CYMRU

COMMONS, WALES

Rheoliadau Tiroedd Comin
(Gorchmynion Dadgofrestru a
Chyfnewid) (Trefniadau Interim)
(Cymru) 2012

The Commons (Deregistration and
Exchange Orders) (Interim
Arrangements) (Wales)
Regulations 2012

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r Nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae adrannau 16 a 17 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ("Deddf 2006") yn gwneud darpariaeth ar gyfer ceisiadau i ddadgofrestru tir a gofrestrwyd fel tir comin neu fel maes tref neu bentref ac i gofrestru tir arall yn gyfnewid.

Sections 16 and 17 of the Commons Act 2006 ("the 2006 Act") make provision for applications to deregister land which is registered as common land or as a town or village green, and to register other land in replacement.

Yng Nghymru mae ceisiadau o'r fath i gael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru neu gan berson a benodir ganddynt. Os caniateir cais, mae'n ofynnol o dan adran 17(1) a (2) o Ddeddf 2006 bod Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn, sy'n cyfarwyddo'r awdurdod cofrestru tiroedd comin i ddiwygio'i gofrestr o diroedd comin neu o feysydd tref neu bentref yn unol â hynny.

Such applications are, in Wales, to be determined by the Welsh Ministers or a person appointed by them. Where an application is granted, section 17(1) and (2) of the 2006 Act require the Welsh Ministers to make an order directing the commons registration authority to amend its register of common land or town or village greens accordingly.

Hyd yma, nid yw Rhan 1 o Ddeddf 2006 wedi ei dwyn i rym yn llawn yng Nghymru. Hyd nes deuir ag adrannau 1 i 3 i rym, rhaid trin gorchymyn o dan adran 17 fel pe bai'n orchymyn sy'n cyfarwyddo'r awdurdod cofrestru i ddiwygio'r cofrestru a gynhelir gan yr awdurdod yn unol â Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 ("Deddf 1965"), yn rhinwedd darpariaethau trosiannol a gynhwysir yng Ngorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/739 (Cy.99) (C.19)).

Part 1 of the 2006 Act has not yet been fully brought into force in relation to Wales. Until sections 1 to 3 are brought into force, an order under section 17 is to be treated as an order directing the registration authority to amend the registers which it maintains pursuant to the Commons Registration Act 1965 ("the 1965 Act"), by virtue of transitional provisions contained in the Commons Act 2006 (Commencement No.2, Transitional Provisions and Savings) (Wales) Order 2012 (S.I. 2012/739 (W.99) (C.19)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r modd y mae'n rhaid i awdurdod cofrestru ddiwygio'r cofrestru a gynhelir ganddo yn unol â Deddf 1965, pan gaiff yr awdurdod cofrestru orchymyn o dan adran 17.

These Regulations specify the manner in which a registration authority must amend the registers which it maintains pursuant to the 1965 Act, when it receives an order under section 17.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was

perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi ynglŷn â chostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi ohono gan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar-lein o www.cymru.gov.uk.

considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ or online from www.wales.gov.uk.

2012 Rhif 740 (Cy.100)

TIROEDD COMIN, CYMRU

**Rheoliadau Tiroedd Comin
(Gorchmynion Dadgofrestru a
Chyfnwid) (Trefniadau Interim)
(Cymru) 2012**

Gwnaed 7 Mawrth 2012

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 8 Mawrth 2012

Yn dod i rym 1 Ebrill 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr awdurdod cenedlaethol priodol gan adrannau 17(3), 24(1) a (2)(m) a 59(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(1), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tiroedd Comin (Gorchmynion Dadgofrestru a Chyfnwid) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2012.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Cwmpas a dehongli

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru, neu berson a benodwyd ganddynt, wedi caniatáu cais o dan adran 16 o Ddeddf 2006 ac wedi gwneud gorchymyn o dan adran 17 o Ddeddf 2006 o ganlyniad i ganiatáu'r cais hwnnw.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(1) 2006 p.26. Mae adran 61(1) yn cynnwys diffiniadau o "appropriate national authority" a "regulations".

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

2012 No. 740 (W.100)

COMMONS, WALES

**The Commons (Deregistration and
Exchange Orders) (Interim
Arrangements) (Wales)
Regulations 2012**

Made 7 March 2012

*Laid before the National
Assembly for Wales* 8 March 2012

Coming into force 1 April 2012

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales as the appropriate national authority by sections 17(3), 24(1) and (2)(m) and 59(1) of the Commons Act 2006(1), and now exercisable by them(2), make the following Regulations:

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Commons (Deregistration and Exchange Orders) (Interim Arrangements) (Wales) Regulations 2012.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2012.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

Scope and interpretation

2.—(1) These Regulations apply where the Welsh Ministers, or a person appointed by them, have granted an application under section 16 of the 2006 Act and have made an order under section 17 of the 2006 Act in consequence of the granting of that application.

(2) In these Regulations—

(1) 2006 c.26. Section 61(1) contains definitions of "appropriate national authority" and "regulations".

(2) The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

ystyr "awdurdod cofrestru tiroedd comin" ("*commons registration authority*") yw awdurdod cofrestru o dan Ddeddf 1965;

ystyr "Deddf 1965" ("*the 1965 Act*") yw Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965(1);

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Tiroedd Comin 2006;

ystyr "Cofnod Enghreifftiol" ("*Model Entry*") a ddilynir gan rif yw'r cofnod enghreifftiol sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cyffredinol neu Ran 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn(2);

ystyr "Cofnod Safonol" ("*Standard Entry*") a ddilynir gan rif yw'r cofnod enghreifftiol sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, neu gofnod sydd â'r un effaith o ran ei sylwedd(3);

mae "cofrestr tir comin" ("*register of common land*") a "cofrestr meysydd tref neu bentref" ("*register of town or village greens*") yn cyfeirio at y cofrestr a gynhelir gan awdurdod cofrestru tiroedd comin yn unol ag adran 3 o Ddeddf 1965;

ystyr "gorchymyn dadgofrestru" ("*deregistration order*") yw gorchymyn i awdurdod cofrestru tiroedd comin o dan adran 17(1) o Ddeddf 2006 (ac eithrio gorchymyn dadgofrestru a chyfnewid);

ystyr "gorchymyn dadgofrestru a chyfnewid" ("*deregistration and exchange order*") yw gorchymyn i awdurdod cofrestru tiroedd comin o dan adran 17(1) a (2) o Ddeddf 2006;

ystyr "y Rheoliadau Cyffredinol" ("*the General Regulations*") yw Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) 1966(4), ac ystyr "rheoliad Cyffredinol" ("*General Regulation*") a ddilynir gan rif yw'r rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau Cyffredinol;

mae i "uned cofrestr" ("*register unit*") yr ystyr a roddir i "register unit" yn Rheoliad Cyffredinol 10.

"the 1965 Act" ("*Deddf 1965*") means the Commons Registration Act 1965(1);

"the 2006 Act" ("*Deddf 2006*") means the Commons Act 2006;

"commons registration authority" ("*awdurdod cofrestru tiroedd comin*") means a registration authority under the 1965 Act;

"deregistration order" ("*gorchymyn dadgofrestru*") means an order to a commons registration authority under section 17(1) of the 2006 Act (other than a deregistration and exchange order);

"deregistration and exchange order" ("*gorchymyn dadgofrestru a chyfnewid*") means an order to a commons registration authority under section 17(1) and (2) of the 2006 Act;

"the General Regulations" ("*y Rheoliadau Cyffredinol*") means the Commons Registration (General) Regulations 1966(2), and "General Regulation" ("*rheoliad Cyffredinol*") followed by a number means the regulation so numbered in the General Regulations;

"Model Entry" ("*Cofnod Enghreifftiol*") followed by a number means the specimen entry so numbered in Part 1 of Schedule 2 to the General Regulations or Part 1 of the Schedule to these Regulations(3);

"register of common land" ("*cofrestr tir comin*") and "register of town or village greens" ("*cofrestr meysydd tref neu bentref*") refer to the registers maintained by a commons registration authority pursuant to section 3 of the 1965 Act;

"register unit" ("*uned cofrestr*") is to be interpreted in accordance with General Regulation 10;

"Standard Entry" ("*Cofnod Safonol*") followed by a number means the specimen entry so numbered in Part 2 of the Schedule to these Regulations, or an entry to substantially the same effect(4).

(1) 1965 p.64. Yn unol ag erthygl 4(1) o Orchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/739 (Cy.99) (C.19)), hyd nes daw adran 1 o Ddeddf 2006 i rym, rhaid dehongli cyfeiriadau yn adrannau 16 neu 17 o Ddeddf 2006, at gofrestru tir fel tir comin neu fel maes tref neu bentref, fel cyfeiriadau at gofrestru tir felly o dan Ddeddf 1965, a rhaid trin gorchymyn o dan adran 17 o Ddeddf 2006 fel gorchymyn sy'n gwneud yn ofynnol bod yr awdurdod cofrestru tiroedd comin yn diwygio'r cofrestr a gynhelir gan yr awdurdod yn unol â Deddf 1965.

(2) Mae Cofnodion Enghreifftiol 1-22 wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau Cyffredinol, a Chofnodion Enghreifftiol 23-32 (nas cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn) yn O.S. 1968/989, 1970/1371 a 1972/437.

(3) Mae'r Cofnodion Safonol 1-10 i'w cael yn y Rheoliadau Cyffredinol ac O.S. 1968/989, 1972/437 a 1990/311.

(4) O.S. 1966/1471, y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) 1965 c.64. By article 4(1) of the Commons Act 2006 (Commencement No.2, Transitional Provisions and Savings) (Wales) Order 2012, (S.I. 2012/739 (W.99) (C.19)) until the coming into force of section 1 of the 2006 Act, references to land being registered as common land or as a town or village green in sections 16 and 17 of the 2006 Act are to be taken as references to land being so registered under the 1965 Act, and an order under section 17 of the 2006 Act is to be treated as an order requiring the commons registration authority to amend the registers which it maintains pursuant to the 1965 Act.

(2) S.I. 1966/1471, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(3) Model Entries 1-22 are contained in the General Regulations, and Model Entries 23-32 (which are not referred to in these Regulations) are contained in S.I. 1968/989, 1970/1371 and 1972/437.

(4) Standard Entries 1-10 are contained in the General Regulations and S.I. 1968/989, 1972/437 and 1990/311.

Dadgofrestru y tir a ryddheir

3. Pan fo awdurdod cofrestru tiroedd comin yn cael gorchymyn dadgofrestru neu orchymyn dadgofrestru a chyfnewid, rhaid iddo ddiwygio'r uned cofrestr sy'n cynnwys y cofrestriad o'r tir a ryddheir yn ei gofrestr o diroedd comin neu'i gofrestr o feysydd tref neu bentref, yn unol â Chofnod Safonol 11.

Cofrestru tir cyfnewid

4.—(1) Pan fo awdurdod cofrestru tiroedd comin yn cael gorchymyn dadgofrestru a chyfnewid, mae darpariaethau canlynol y rheoliad hwn yn gymwys, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau yn y gorchymyn sy'n pennu'r modd y mae'r tir cyfnewid i gael ei gofrestru.

(2) Caiff yr awdurdod cofrestru gofrestru'r tir cyfnewid—

- (a) drwy ddiwygio'r uned cofrestr yn ei gofrestr o dir comin neu'i gofrestr o feysydd tref neu bentref sy'n cynnwys y cofrestriad o'r tir rhyddhau; neu
- (b) drwy fewnosod uned cofrestr newydd mewn perthynas â'r tir cyfnewid.

(3) Os yw'r awdurdod cofrestru yn cofrestru'r tir cyfnewid drwy ddiwygio'r uned cofrestr sy'n cynnwys y cofrestriad o'r tir rhyddhau, rhaid i'r awdurdod wneud hynny yn unol â Chofnod Safonol 12.

(4) Os yw'r awdurdod cofrestru yn cofrestru'r tir cyfnewid drwy fewnosod uned cofrestr newydd mewn perthynas â'r tir cyfnewid, mae paragraffau (5) i (9) yn gymwys.

(5) Rhaid i'r awdurdod cofrestru ddilyn Cofnod Enghreifftiol 4 mor agos ag y bo modd, gyda pha bynnag amrywiadau ac addasiadau sy'n ofynnol yn yr amgylchiadau, a chan—

- (a) rhoi'r geiriau "Registered pursuant to an order under section 17 of the Commons Act 2006.", yn lle'r frawddeg sy'n dechrau "Registered pursuant to application"; a
- (b) hepgor y geiriau "(Registration provisional).".

(6) Mae paragraffau (2) i (6) o Reoliad Cyffredinol 10 yn gymwys i'r cofrestriad.

(7) Mae paragraffau (4) i (8) o reoliad 9 o Reoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Gwrthwynebiadau a Mapiau) 1968(1) d(newidiadau o ran mapiau cofrestr amodol) yn gymwys, yn darostyngedig i'r addasiadau canlynol—

- (a) rhaid dehongli cyfeiriadau at "new map" ("map newydd") fel cyfeiriadau at unrhyw fap a gymerir i'w ddefnyddio at ddibenion y rheoliad hwn;

(1) O.S. 1968/989 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990/311. Diwygiwyd hefyd gan offerynnau eraill, nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Deregistration of release land

3. Where a commons registration authority receives a deregistration order or a deregistration and exchange order, it must amend the register unit in its register of common land or register of town or village greens which contains the registration of the release land in accordance with Standard Entry 11.

Registration of replacement land

4.—(1) Where a commons registration authority receives a deregistration and exchange order, the following provisions of this regulation apply subject to any provisions in the order specifying the manner in which the replacement land is to be registered.

(2) The registration authority may register the replacement land—

- (a) by amending the register unit in its register of common land or register of town or village greens which contains the registration of the release land; or
- (b) by inserting a new register unit in respect of the replacement land.

(3) If the registration authority registers the replacement land by amending the register unit which contains the registration of the release land, it must do so in accordance with Standard Entry 12.

(4) If the registration authority registers the replacement land by inserting a new register unit in respect of it, paragraphs (5) to (9) apply.

(5) The registration authority must follow as closely as possible Model Entry 4 with such variations and adaptations as the circumstances may require, and with—

- (a) the substitution, for the sentence beginning "Registered pursuant to application", of the words "Registered pursuant to an order under section 17 of the Commons Act 2006."; and—
- (b) the omission of the words "(Registration provisional).".

(6) Paragraphs (2) to (6) of General Regulation 10 apply to the registration.

(7) Paragraphs (4) to (8) of regulation 9 of the Commons Registration (Objections and Maps) Regulations 1968(1)(changes as to provisional register maps) apply, subject to the following modifications—

- (a) references to a "new map" are to be interpreted as meaning any map taken into use for the purpose of this regulation;

(1) S.I. 1968/989 as amended by S.I. 1990/311. There are other amending instruments not relevant to these Regulations.

- (b) yn hytrach na'r raddfa a bennir ym mharagraff (4), rhaid paratoi pob map newydd ar Fap Ordnans o raddfa ddim llai nag 1:2,500 os oes un ar gael, ac ym mhob achos, ddim llai nag 1:10,000; ac
- (c) mae paragraff (7) yn gymwys fel pe bai'r gair "provisional" wedi ei hepgor.

(8) Rhaid i bob map newydd a gymerir i'w ddefnyddio gael ei stampio gan yr awdurdod cofrestru a'i lofnodi ar ran yr awdurdod, a bydd y map wedyn yn ffurfio rhan o'r gofrestr.

(9) Mae'r gofyniad ym mharagraff (8), am i awdurdod cofrestru stampio map newydd, yn ofyniad am beri bod argraff o stamp swyddogol yr awdurdod cofrestru, fel y'i disgrifir yn Rheoliad Cyffredinol 3, yn cael ei gosod ar y map, a rhaid i'r argraff honno gynnwys y dyddiad y'i gosodir.

Cofrestru hawliau comin dros dir cyfnewid

5.—(1) Pan fo awdurdod cofrestru tiroedd comin, yn unol â gorchymyn dadgofrestru a chyfnewid, yn cofrestru tir cyfnewid drwy fewnosod uned cofrestru newydd mewn perthynas â'r tir hwnnw, mae'r darpariaethau canlynol yn gymwys, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau yn y gorchymyn sy'n pennu'r modd y mae hawliau comin i'w cofrestru fel rhai arferadwy dros y tir cyfnewid.

(2) Os oedd hawliau comin, yn union cyn dadgofrestru'r tir rhyddhau, wedi eu cofrestru fel rhai arferadwy dros y tir rhyddhau ac nid unrhyw dir arall, rhaid i'r awdurdod cofrestru gofrestru'r hawliau hynny fel rhai arferadwy dros y tir cyfnewid, drwy ddilyn Cofnod Enghreifftiol 7 mor agos ag y bo modd, gyda pha bynnag amrywiadau ac addasiadau sy'n ofynnol yn yr amgylchiadau, a chan hepgor o golofn 4 y geiriau o "except" ymlaen i'r diwedd.

(3) Os oedd hawliau comin, yn union cyn dadgofrestru'r tir rhyddhau, wedi eu cofrestru fel rhai arferadwy dros ddarn o dir a gyfansoddir o'r tir rhyddhau (Darn A) a thir arall (Darn B), rhaid i'r awdurdod cofrestru gofrestru'r hawliau hynny fel rhai sy'n arferadwy dros y tir cyfnewid yn ychwanegol at barhau'n arferadwy dros Darn B, yn unol â Chofnodion Enghreifftiol 33 (mewn perthynas â Darn B) a 34 (mewn perthynas â'r tir cyfnewid) gyda pha bynnag amrywiadau ac addasiadau sy'n ofynnol yn yr amgylchiadau.

Gwybodaeth am ddiwygiadau yn y cofrestru

6. Pan fo awdurdod cofrestru tiroedd comin wedi diwygio ei gofrestru yn unol â gorchymyn dadgofrestru neu orchymyn dadgofrestru a chyfnewid, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o'r ffaith honno, gan gynnwys manylion o'r diwygiad a wnaed, i'r canlynol—

- (b) instead of the scale specified in paragraph (4), every new map must be prepared on an Ordnance Map of a scale of not less than 1:2,500 if available, and in any case not less than 1:10,000; and
- (c) paragraph (7) applies as if the word "provisional" were omitted.

(8) Each new map taken into use must be stamped by and signed on behalf of the registration authority, and will then form part of the register.

(9) The requirement in paragraph (8) for a registration authority to stamp a new map is a requirement to cause an impression of its official stamp as described in General Regulation 3 to be affixed to it, which must bear the date when it was affixed.

Registration of rights of common over replacement land

5.—(1) Where pursuant to a deregistration and exchange order, a commons registration authority registers replacement land by inserting a new register unit in respect of it, the following provisions of this regulation apply, subject to any provisions in the order specifying the manner in which rights of common are to be registered as exercisable over the replacement land.

(2) If immediately before the deregistration of the release land, rights of common are registered as exercisable over the release land and no other land, the registration authority must register those rights as being exercisable over the replacement land, by following as closely as possible Model Entry 7 with such variations and adaptations as the circumstances may require, and with the omission from column 4 of the words from "except" to the end.

(3) If immediately before the deregistration of the release land, rights of common are exercisable over an area of land which comprises the release land (Area A) and other land (Area B), the registration authority must register those rights as being exercisable over the replacement land in addition to remaining exercisable over Area B, in accordance with Model Entries 33 (relating to Area B) and 34 (relating to the replacement land) with such variations and adaptations as the circumstances may require.

Information about amendments to the registers

6. When a commons registration authority has amended its registers in accordance with a deregistration order or a deregistration and exchange order, it must give written notice of that fact, including details of the amendment made, to—

- (a) y ceisydd am y gorchymyn; a
- (b) Gweinidogion Cymru, neu'r person a benodwyd ganddynt, a wnaeth y gorchymyn.

- (a) the applicant for the order; and
- (b) the Welsh Ministers, or the person appointed by them, who made the order.

John Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weiniogion Cymru

Minister for Environment and Sustainable Development, one of the Welsh Ministers

7 Mawrth 2012

7 March 2012

RHAN 1

COFNODION ENGHREIFFTIOL

Cofnodion Enghreifftiol Rhifau 33 a 34

Ar gyfer yr adran hawliau yn y gofrestr

Yn y cofnod cofrestr sy'n ymwneud â'r tir rhyddhau ("register unit CL X"):

	1 No. and date of entry	2 No. and date of application	3 Name and address of every applicant for registration, and the capacity in which the applicant applied	4 Particulars of the right of common, and of the land over which it is exercisable	5 Particulars of the land (if any) to which the right is attached
	17 12 April 1967	301 3 April 1967	John Dale, Thatcham Farm, Fursdon, Basset. Tenant.	To graze— (a) 20 head cattle, or (b) 100 sheep, over the whole of the land comprised in this register unit. (Registration provisional)	Thatcham Farm, Fursdon, Basset, as shown hatched blue on the supplemental map bearing registration 17.
No. 33	18 12 December 2007	Not applicable	Registration amendment: entry No. 17 above is modified by entries Nos. 1 and 2 in register unit CL Y.		
Yn y cofnod cofrestr sy'n ymwneud â'r tir rhyddhau ("register unit CL Y"):					
	1 No. and date of entry	2 No. and date of application	3 Name and address of every applicant for registration, and the capacity in which the applicant applied	4 Particulars of the right of common, and of the land over which it is exercisable	5 Particulars of the land (if any) to which the right is attached
No. 34	1 12 December 2007	Not applicable	Not applicable. Registration made pursuant to an order made by or on behalf of the Welsh Ministers on ...20...under section 17 of the Commons Act 2006.	(See entries Nos. 17 and 18 in register unit CL X) The right to graze— (a) 20 head cattle, or (b) 100 sheep, over register unit CL X is also exercisable over the whole of this register unit.	Thatcham Farm, Fursdon, Basset, as shown hatched blue on the supplemental map bearing registration 17 under register unit CL X.

RHAN 2

COFNODION SAFONOL

Cofnod Safonol 11

Ar gyfer yr adran tir yn y gofrestr

No. and date of entry	Description of the land, reference to the register map, registration particulars, etc.
	Registration amendment: [the whole] [the part]* of the land comprised in this register unit [shown hatched violet on the register map and marked [R1]* was removed from the register of [common land] [town or village greens]* on.....20... pursuant to an order made by or on behalf of the Welsh Ministers on...20...under section 17 of the Commons Act 2006.

* Delete inapplicable wording

Cofnod Safonol 12

Ar gyfer yr adran tir yn y gofrestr

No. and date of entry	Description of the land, reference to the register map, registration particulars, etc.
	The land comprised in the registration at entry no...("the replacement land") was registered as [common land] [a town or village green]* on...20.. in substitution for the land removed from the register at entry no...("the release land") pursuant to an order made by or on behalf of the Welsh Ministers on...20.. under section 17 of the Commons Act 2006. The replacement land became on [date of registration] subject to the rights of common (if any) which were immediately before that date exercisable over the release land.

*Delete inapplicable wording.

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

SCHEDULE

Regulation 2

PART 1

MODEL ENTRIES

Model Entry Nos. 33 and 34

For rights section of register

In the register entry relating to the release land ("register unit CL X"):

	1 No. and date of entry	2 No. and date of application	3 Name and address of every applicant for registration, and the capacity in which the applicant applied	4 Particulars of the right of common, and of the land over which it is exercisable	5 Particulars of the land (if any) to which the right is attached
	17 12 April 1967	301 3 April 1967	John Dale, Thatcham Farm, Fursdon, Basset. Tenant.	To graze— (a) 20 head cattle, or (b) 100 sheep, over the whole of the land comprised in this register unit. (Registration provisional)	Thatcham Farm, Fursdon, Basset, as shown hatched blue on the supplemental map bearing registration 17.
No. 33	18 12 December 2007	Not applicable	Registration amendment: entry No. 17 above is modified by entries Nos. 1 and 2 in register unit CL Y.		

In the register entry relating to the replacement land ("register unit CL Y"):

	1 No. and date of entry	2 No. and date of application	3 Name and address of every applicant for registration, and the capacity in which the applicant applied	4 Particulars of the right of common, and of the land over which it is exercisable	5 Particulars of the land (if any) to which the right is attached
No. 34	1 12 December 2007	Not applicable	Not applicable. Registration made pursuant to an order made by or on behalf of the Welsh Ministers on20...under section 17 of the Commons Act 2006.	(See entries Nos. 17 and 18 in register unit CL X) The right to graze— (a) 20 head cattle, or (b) 100 sheep, over register unit CL X is also exercisable over the whole of this register unit.	Thatcham Farm, Fursdon, Basset, as shown hatched blue on the supplemental map bearing registration 17 under register unit CL X.

PART 2

STANDARD ENTRIES

Standard Entry 11

For land section of register

No. and date of entry	Description of the land, reference to the register map, registration particulars, etc.
	Registration amendment: [the whole] [the part]* of the land comprised in this register unit [shown hatched violet on the register map and marked [R1]* was removed from the register of [common land] [town or village greens]* on.....20... pursuant to an order made by or on behalf of the Welsh Ministers on...20...under section 17 of the Commons Act 2006.

* Delete inapplicable wording

Standard Entry 12

For land section of register

No. and date of entry	Description of the land, reference to the register map, registration particulars, etc.
	The land comprised in the registration at entry no...("the replacement land") was registered as [common land] [a town or village green]* on...20.. in substitution for the land removed from the register at entry no...("the release land") pursuant to an order made by or on behalf of the Welsh Ministers on...20.. under section 17 of the Commons Act 2006. The replacement land became on [date of registration] subject to the rights of common (if any) which were immediately before that date exercisable over the release land.

*Delete inapplicable wording.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 740 (Cy.100)

TIROEDD COMIN, CYMRU

Rheoliadau Tiroedd Comin
(Gorchmynion Dadgofrestru a
Chyfnwid) (Trefniadau Interim)
(Cymru) 2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 740 (W.100)

COMMONS, WALES

The Commons (Deregistration and
Exchange Orders) (Interim
Arrangements) (Wales)
Regulations 2012